



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 607 (Cy.81)

2003 No. 607 (W.81)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

Gorchymyn Pysgod Cregyn (Ardal Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) 2003

The Shellfish (Specified Sea Area) (Prohibition of Fishing Methods) (Wales) Order 2003

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae Adran 5 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 yn cynnwys pŵer i wahardd pysgota am bysgod môr yn llwyr, neu wahardd pysgota am fath penodol o bysgod môr, neu ddull penodol o bysgota, naill ai am bysgod môr yn gyffredinol neu am fathau penodol o bysgod môr. Yn rhinwedd Adran 22 o'r Ddeddf honno mae pysgod môr yn cynnwys pysgod cregyn. Mae Adran 5A o'r Ddeddf yn caniatáu i'r pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 5 gael ei ddefnyddio at ddibenion amgylchedd y môr. Mae'r pŵer yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r môr tiriogaethol cyfagos at Gymru.

Section 5 of the Sea Fish (Conservation) Act 1967 contains a power to prohibit all fishing for sea fish, or a specific type of sea fish, or a specific method of fishing either sea fish generally or sea fish of a particular description. By virtue of Section 22 of that Act sea fish includes shellfish. Section 5A of the Act permits the power to make an order under section 5 to be used for marine environmental purposes. The power is exercisable by the National Assembly for Wales in relation to the territorial sea adjacent to Wales.

Mae'r rhan honno o'r môr oddi ar arfordir De Cymru a ddisgrifir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn wedi ei nodi yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig ddichonol at ddibenion y Gyfarwyddeb Adar (Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC).

That part of the sea off the South Wales coast described in article 2 of the Order has been identified as a potential Special Protection Area for the purposes of the Birds Directive (Council Directive 79/409/EEC).

Mae'r ardal dan sylw yn safle pwysig i Fôr-hwyaid Duon pan nad ydynt yn magu, ac mae'r Gorchymyn hwn yn gwahardd carthu hydrolig am folysgiaid dwyragennog yn yr ardal honno. Ceir esemptiadau gwyddonol ac eraill yn adran 9 o Ddeddf 1967.

The area in question is an important site for non-breeding Common Scoter, and this Order prohibits the use of hydraulic dredging for bivalve molluscs in that area. Scientific and other exemptions are contained in section 9 of the 1967 Act.

Mae'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â gorfodi. Ceir darpariaethau eraill, gan gynnwys rhai ynghylch tramgwyddau, yn Neddf 1967.

The Order contains provisions relating to enforcement. Other provisions, including those relating to offences, are contained in the 1967 Act.

2003 Rhif 607 (Cy.81)**2003 No. 607 (W.81)****PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU****SEA FISHERIES,
WALES****Gorchymyn Pysgod Cregyn (Ardal
Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau
Pysgota) (Cymru) 2003****The Shellfish (Specified Sea Area)
(Prohibition of Fishing Methods)
(Wales) Order 2003***Wedi'i wneud**6 Mawrth 2003**Made**6th March 2003**Yn dod i rym**9 Mawrth 2003**Coming into force**9th March 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5, 5A a 15(3) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(a), ac sydd yn awr wedi eu breinio ynddo(b), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 5, 5A and 15(3) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(a), and now vested in it(b), hereby makes the following Order:

Enw a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 9 Mawrth 2003.

Title and commencement

1. This Order is called the The Shellfish (Specified Sea Area) (Prohibition of Fishing Methods) (Wales) Order 2003 and comes into force on 9th March 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "yr ardal fôr benodedig" ("*the specified sea area*") yw'r ardal hwnnw o Fae Caerfyrddin sydd i'r gogledd o linell yn rhedeg yn union tua'r de o Benrhyn Gŵyr i bwynt y mae ei yn gyfesurynnau yn 04°10'Gor, 51°30'Gog yna tua'r gorllewin i 04°27'Gor, 51°30'Gog, yna tua'r gogledd i 04°27'Gor, 51°36'Gog, yna tua'r gorllewin i 04°42'Gor, 51°36'Gog, ac yna yn union tua'r gogledd ar draws yr Ynys Bŷr i'r arfordir yn Nimbych y Pysgod;

ystyr "carthu hydrologig" ("*hydraulic dredging*") yw'r dull o bysgota am folysgiaid dwygragenog sydd wedi'u claddu yng ngwely'r môr drwy dynnu'r carthwr y tu ôl i'r cwch ar ben pibell â thrawsfesur o 10-20cm a phwmpio dŵr o dan bwysedd uchel i geg y carthwr a'i gyfeirio yn ôl i fyny'r bibell gan

Interpretation

2. In this Order-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Sea Fish (Conservation) Act 1967;

"bivalve molluscs" ("*molysgiaid dwygragenog*") means molluscs with a shell hinged in two parts that encases the soft parts of the animal;

"hydraulic dredging" ("*carthu hydrologig*") means a method of fishing for bivalve molluscs buried in the sea bed whereby the dredge is trailed behind the boat at the end of a 10-20cm diameter pipe and water is pumped at high pressure to the mouth of the dredge and directed back up the pipe creating suction causing material, including the fish being dredged for, to be lifted to the surface of the water;

"the specified sea area" ("*yr ardal fôr benodedig*") means that area of Carmarthen

(a) 1967 p.84.

(b) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999 Rhif 672) trosglwyddwyd swyddogaethau "y Gweinidogion" o dan y Ddeddf i'r Cynulliad.

(a) 1967 c.84.

(b) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999 No. 672) the functions of "the Ministers" under the Act were transferred to the National Assembly.

greu sugnedd sy'n peri i ddeunydd, gan gynnwys y pysgod y certhir amdanynt, gael eu codi i wyneb y dŵr,

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967;

ystyr "molysgiaid dwygragenog" ("*bivalve molluscs*") yw molysciaid gyda chragen ddeuran golfachog sy'n cau am ddarnau meddal yr anifail.

Gwaharddiad

3. Mae carthu hydrolig i hel molysgiaid dwygragenog yn yr ardal fôr benodedig drwy hyn yn cael ei wahardd.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig o ran cychod pysgota

4. -(1) At ddibenion gorfodi erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer mewn cysylltiad ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig sydd yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru y pwerau a roddir gan baragraffau (2) i (4) o'r Erthygl hon.

(2) Caiff y swyddog fynd ar y cwch, boed gyda phobl wedi eu pennu i gynorthwyo gyda dyletswyddau'r swyddog neu hebddynt, ac i'r perwyl hwnnw, caiff fynnu bod y cwch yn aros a chaiff wneud unrhyw beth arall a fyddai yn hwyluso mynd ar y cwch.

(3) Caiff y swyddog fynnu presenoldeb y meist'r a phobl eraill ar y cwch a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiad yr ymddengys fod eu hangen at y dibenion a nodwyd ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon ac, yn benodol-

- (a) caiff archwilio unrhyw bysgodyn sydd ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a mynnu bod pobl sydd ar y cwch yn gwneud unrhyw beth sydd, yn nhyb y swyddog, ei angen i hwyluso'r archwilio;
- (b) caiff fynnu bod unrhyw unigolyn ar y cwch yn dangos unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r cwch, ei weithredoedd pysgota, neu weithredoedd sy'n ategol iddynt neu i'r bobl ar y cwch, sydd ym meddiant yr unigolyn hwnnw neu yn eiddo iddo a chaiff gymryd copïau o unrhyw ddogfen o'r fath;
- (c) at ddibenion canfod a yw meist'r, perchennog neu siartrwr y cwch wedi cyflawni trosedd o dan adran 5 o'r Ddeddf fel y'i darllenir gyda'r Gorchymyn hwn, caiff archwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a mynnu bod unrhyw unigolyn ar y cwch yn gwneud unrhyw beth sydd, yn nhyb y swyddog, ei angen i hwyluso'r archwiliad, ac
- (ch) os oes gan y swyddog reswm dros gredu bod trosedd o'r fath wedi ei gyflawni mewn cysylltiad â'r cwch, caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen a gyflwynir neu a ddarganfyddir ar y

Bay north of a line directly southwards from the Gower Peninsula to a point whose co-ordinates are 04°10'W, 51°30'N then westwards to 04°27'W, 51°30'N, then northwards to 04°27'W, 51°36'N, then westwards to 04°42'W, 51°36'N, then directly northwards across Caldey Island to the coastline at Tenby.

Prohibition

3. The use of hydraulic dredging to recover bivalve molluscs in the specified sea area is hereby prohibited.

Powers of British sea-fishery officers in relation to fishing boats

4. -(1) For the purpose of the enforcement of article 2 of this Order a British sea-fishery officer may exercise in relation to any British fishing boat within the territorial sea adjacent to Wales the powers conferred by paragraphs (2) to (4) of this Article.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist with the officer's duties, and for that purpose may require the boat to stop and may do anything else that would facilitate the boarding of the boat

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to be necessary for the purpose mentioned in paragraph (1) of this Article and, in particular-

- (a) may examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination;
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, to its fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board which is in that person's custody or possession and may take copies of any such document;
- (c) for the purpose of ascertaining whether the master, owner or charterer of the boat has committed an offence under section 5 of the Act as read with this Order, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search; and
- (d) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that such an offence has been committed, may seize and detain any such document produced or found

cwch at ddibenion galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos sy'n ymwneud â'r trosedd;

ond nid yw dim byd yn is-baragraff (ch) uchod yn caniatáu i unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol o dan y gyfraith ei chludo ar gwch gael ei chipio a'i chadw ac eithrio pan fo'r cwch wedi ei ddal mewn porthladd.

(4) Os ymddengys i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod adran 5 o'r Ddeddf fel y'i darllenir gyda'r Gorchymyn hwn wedi ei thorri ar unrhyw adeg o fewn ffiniau pysgodfeydd Prydain, caiff y swyddog hwnnw-

- (a) mynnu bod meistr y cwch y bu'r trosedd yn gysylltiedig ag ef yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sydd, yn nhyb y swyddog, y porthladd cyfleus agosaf, neu caiff y swyddog yntau wneud hynny; a
- (b) dal y cwch yn y porthladd neu fynnu bod y meistr yn ei ddal yno;

ac os bydd swyddog o'r fath yn dal cwch neu'n mynnu bod cwch yn cael ei dal rhaid i'r swyddog hwnnw gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig y bydd, neu fod, angen dal y cwch hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

6 Mawrth 2003

D.Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£1.75

W92/03/03

ON

on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence;

but nothing in subparagraph (d) above permits any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(4) Where it appears to a British sea-fishery officer that a contravention of section 5 of the Act as read with this Order has at any time taken place within British fishery limits, that officer may-

- (a) require the master of the boat in relation to which the offence took place to take, or may himself take, the boat and its crew to the port which appears to the officer to be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in the port;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat that officer must serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

6th March 2003

The Presiding Officer of the Assembly

(a) 1998 c.38.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090672-1



9 780110 906720